# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 12-09)

**Dyddiad: 11 Mai 2009**
**Amser: 16.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 11 Mai 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC a Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC a Mark Isherwood AC. Roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ran Mark Isherwood AC.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC279 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 18 Ebrill 2009. Fe'i gosodwyd ar 21 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009

SLC280 - Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 18 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 1 Mehefin 2009

SLC281 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 20 Mai 2009

SLC282 - Rheoliadau Cynhyrchion Sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 28 Mai 2009

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC283 - Y Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Ebrill 2009. Fe'u gosodwyd ar 29 Ebrill 2009. Yn dod i rym ar 25 Mai 2009

Ceir Adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn. Derbyniodd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth.

### Unrhyw fater arall

### Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 200

**-** Trafododd y Pwyllgor bapur yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig a nodi na fydd unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn deillio ohono. Cytunwyd na fyddai angen i'r Pwyllgor ystyried y Mesur hwn ymhellach.

### Y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

Fel rhan o'r gwaith craffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (gall y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru" a chyflwyno adroddiad ar hynny), clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad drafft ar y Mesur arfaethedig yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin.

### Eitemau 5.2 a 6 ar yr Agenda - Ystyried tystiolaeth: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd a'r Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Mesur Seneddol): ystyried yr adroddiad drafft

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn ystyried y dystiolaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) ac ystyried adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu

**Janet Ryder AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**27 Ebrill 2009**

# Atodiad 1

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-12-09)

**SLC283**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Y Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu tair Cyfarwyddeb y Comisiwn sy'n llywodraethu meini prawf purdeb ar gyfer lliwiau, melysyddion ac ychwanegion amrywiol eraill a ddefnyddir mewn bwydydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach, o ran Cymru, Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 a Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995.

### Gweithdrefn: Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn:

Ymddengys bod y gwaith drafftio’n ddiffygiol (Rheol Sefydlog 15.2 (vi))

Yn y testun Saesneg mae Rheoliad 3(2)(a) yn cyfeirio at hepgor y diffiniad o "Gyfarwyddeb 95/31/EC” yn Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995.

Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae Rheoliad 3(2)(a) yn cyfeirio at hepgor "Cyfarwyddeb 95/45/EC” sy’n anghywir ac yn amherthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Y gyfarwyddeb y dylid cyfeirio ati yw "Cyfarwyddeb 95/31/EC”.

**Janet Ryder**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**11 Mai 2009**

### Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Mae’r Llywodraeth wedi mynegi ei bod yn cytuno â’r pwynt yn yr adroddiad a’i bod yn bwriadu gwneud Rheoliadau diwygio i gywiro’r gwall cyn y toriad dros yr haf